

# ARTSCAPE

## **Galwad Agored ar gyfer Artistiaid, Ymarferwyr a Chydweithrediadau Creadigol Cyrsgiau Preswyl CELFLUN Aberhonddu, Powys**

---

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau: 12 canol dydd, dydd Llun 23 Awst 2021

Dyddiad Cyfweiliad:

Dydd Iau 02 Medi

Ffi:

£4,000 am isafswm o 16 diwrnod

Teithio:

£0.45 y filltir (hyd at £500)

Cyllideb:

Bydd cyllideb bellach ar gael i greu gwaith newydd

Mae prosiect CELFLUN yn ceisio penodi hyd at dri artist / ymarferwr creadigol /cydweithrediad preswyl i gymryd rhan yn y prosiect hwn.

---

### **YNGLŶN Â CHEFLUN**

Mae CELFLUN yn golygu creu rhaglen o brofiadau a digwyddiadau celfyddydau creadigol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n seiliedig ar yr ardal leol a themâu amgylcheddol o fewn y gofod ffisegol a digidol.

Cynghrair partneriaeth greadigol yw CELFLUN RHWNG **Gwasanaeth Celfyddydol a Diwylliannol Cyngor Sir Powys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Impelo, 4Pi ac Articulture.**

Ffurfiwyd y bartneriaeth i ymgysylltu'n ddychmygus gyda chymunedau er mwyn ysgogi ailgysylltu, cyffroi brwdfrydedd tuag at ofalu am yr amgylchedd yn wyneb newid hinsawdd a hyrwyddo lles pobl trwy brofiadau celfyddydol ac amgylcheddol digidol, yn seiliedig ar le ac yn rhithwir sy'n rhyngysylltiedig.

**Dod â chreadigrwydd, y celfyddydau, lles cymunedol a natur ynghyd mewn lle digidol a ffisegol**

**Briff: Ynysoedd y Dyfodol**

**(Elfen De Powys o Gelflun) South Powys element of Artscape)**

Bydd elfen de Powys o'r prosiect Celflun yn cael ei gynnal o fewn cymuned Aberhonddu, a'i nod yw sefydlu cymuned o deuluoedd a phobl ifanc i gyd-greu gweithiau celf newydd mewn cydweithrediad gyda thri o artistiaid (neu gydweithrediadau) preswyl a benodir. Mae'r prosiect yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned mewn sgwrs ynghylch newid hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd trwy arfer celfyddydol, gan ddod ag arbenigwyr amgylcheddol i mewn i'r prosiect i archwilio'r dirwedd ac ecoleg. Y safle tirwedd y mae'r prosiect hwn yn ceisio canolbwyntio arno yw'r Island Fields ar gyrion Tref Aberhonddu (gweler isod am ragor o wybodaeth).

Y partneriaid diwylliannol posibl yw 4pi Productions, Theatr Brycheiniog, y Gaer a Rhwydwaith Chwarae Brycheiniog.

Gellid llwyfannu/gosod ymyriadau artistig o bosibl ar safle Island Fields, neu gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad, ac i ysbrydoli gwaith newydd. Mae posibilrwydd hefyd am ddeilliannau artistig i'w rhannu gyda'r cyhoedd ehangach trwy'r rhaglen gyhoeddus yn Theatr Brycheiniog, y Gaer neu o fewn strydluniau tref Aberhonddu, gan ddibynnu ar gymhlethdod neu gost cynigion y prosiect.

Mae disgwyliad y bydd pob prosiect artistig yn cael elfen ddigidol a ddatblygir gyda'r crëwyr amlgyfryngol ymgollol, 4pi Productions, gyda'r golwg o ehangu cyfranogiad a chyrhaeddiad, gan dorri ffiniau cyfathrebu a chyflwyno tuag at wneud ac 'arddangos' gwaith celf newydd a chynnwys creadigol ar gyfer artistiaid lleol a bydeang yn y dyfodol.

#### **Nodau'r prosiect:**

- Archwilio gweledigaeth ar gyfer y dyfodol trwy arfer ac ymyrraeth artistig ddyfeisgar
- Dehongli ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r syniad o ddyfodol cydnerth trwy arfer artistig
- Creu gwaith newydd (er enghraifft, gosodiadau; ymyriadau; perfformiad; profiad), mewn cydweithrediad gyda'r gymuned trwy gyd-ddatblygu a chyd-greu).
- Rhannu gwaith celf newydd gyda'r cyhoedd ar draws Powys a/neu trwy ymyriadau digidol a/neu brofiad ymdrochol gyda chefnogaeth oddi wrth 4pi Productions.
- Datblygu cymuned newydd, weithgar sydd wedi ymgysylltu o deuluoedd a phobl ifanc i gyfrannu tuag at weithgareddau creadigol gyda sefydliadau partner.


#### **Cyllideb ar gyfer gwaith newydd**

Mae cyllideb deunyddiau cychwynnol o tua £500 – £700 fesul cwrs preswyl ar gael ar gyfer y cam hwn o'r prosiect, gyda'r potensial i gynnig datblygiad creadigol pellach tuag at ymyriadau arwyddocaol.

#### **Island Fields**

Gorlifdir yr Afon Wysg yw'r Island Fields, a leolir ar gyrion tref Aberhonddu rhwng Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog a'r afon. Fe'i defnyddir yn helaeth gan y gymuned ar gyfer cerdded, mynediad at yr afon a nofio, ac mae wedi bod yn ailwylltio ei hunan dros y blynyddoedd diwethaf. Yn eiddo i Gyngor Sir Powys ar hyn o bryd, mae'r safle yn cael ei ystyried ar gyfer trosglwyddiad perchnogaeth posibl i'r gymuned.

Mae'r lle hwn o fewn cyrraedd i'r cyhoedd a gellir gwneud ymweliadau â'r safle yn annibynnol.



Pwy ydym ni'n edrych amdanynt:

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth artistiaid, ymarferwyr creadigol neu gydweithrediadau sy'n byw neu'n gweithio ym Mhowys, i weithio mewn ymateb i safle Island Fields yn Aberhonddu trwy gydweithrediad, proses creadigol gyda chymuned o deuluoedd a phobl ifanc. Croesewir ceisiadau oddi wrth artistiaid, cydweithrediadau neu ymarferwyr creadigol:-

- sydd ag arfer artistig/ creadigol proffesiynol sefydledig
- a fydd yn ymatebol i anghenion, ac yn gwerthfawrogi gallu pobl ifanc a phlant i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau
- sy'n meddu ar record sydd wedi'i phrofi o gyflwyno prosiectau ar amser a hyd at amserlen
- sy'n meddu ar sgiliau trefniadol gwych ac yn gallu bod yn ddyfeisgar gan weithio'n annibynnol
- a fydd yn gyfathrebwr gwych, gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda chyfranogwyr ynghyd â staff y prosiect a phartneriaid
- a fydd yn gydweithredol, gan weithio gyda chymunedau, artistiaid eraill a benodir, sefydliadau partner a chynhyrchwyr creadigol i ddatblygu a chyflwyno prosiect effeithiol
- a fydd yn cymryd rhan wrth fonitro a gwerthuso'r prosiect er dibenion adrodd

### **Pwy ddylai ymgeisio:**

Mae artistiaid, ymarferwyr creadigol neu gydweithrediadau yn cael eu gwahodd i gynnig proses gysyniadol a deiliant artistig posibl, a grëwyd trwy weithio mewn cydweithrediad gyda theuluoedd a phobl ifanc yn ardal Aberhonddu. Gwahoddir pobl creadigol o unrhyw ddisgyblaeth i ymgeisio, gan gynnwys, er enghraifft (ond heb ei gyfyngu i) celfyddydau gweledol, perfformio, symud a chysyniadol; ffilm, ffotograffiaeth, cyfryngau digidol, cerddoriaeth a sain; llenyddiaeth, celfyddydau cyhoeddus neu bensaernïaeth.

Gwahoddir cynigion sy'n ymateb i'r testun newid hinsawdd, ac yn benodol i'r safle Island Fields yn Aberhonddu, Powys; gan ddod â lleisiau'r teuluoedd a phobl ifanc ynghyd i gyflwyno dehongliadau creadigol o'r safle hwn a'r drafodaeth ynghylch newid hinsawdd, i'r cyhoedd ehangach. **Croesewir cynigion beiddgar a dyfeisgar yn benodol.**

Cydweithrediad yw CELFLUN, rhwng yr artist (neu gydweithrediad), y gymuned a sefydliadau partner amrywiol; sy'n ceisio ymgysylltu gyda'r holl asiantau hyn i weithredu ar newid hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd; gan ddeall yr hyn sy'n digwydd nawr a chreu gweledigaeth ar gyfer dyfodol a rennir. Mae'r prosiect hwn wedi cael ei gwreiddio yn y syniad o greu celf ddemocrataidd yn ddiwylliannol, a rhagwelir y bydd y gwaith newydd yn cael ei gyd-ddatblygu a'i gyd-greu gyda chymuned o deuluoedd a phobl ifanc.

Efallai y bydd gofyn i ymarferwyr a benodir gynnal uwch archwiliad DBS ac mae gofyn iddynt gael eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu hunain. Bydd gofyn i ymgeiswyr allu gweithio o fewn yr amserlen a bennir isod i alluogi'r prosiect hwn i ddiwallu ei gytundeb gydag ariannwyr.

### **Amserlen y Prosiect**

Dyddiad 2021	Gweithgaredd
23 Awst	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau (12 canol dydd)
02 Medi	Cyfweliad digidol
18 Medi – 23 Hydref	4 x sesiwn cyd-ddatblygu a chyd-greu gyda theuluoedd a phobl ifanc
25 – 29 Hydref	Dyddiau cyd-greu – (4 diwrnod)
Tachwedd / Rhagfyr	Rhannu gwaith newydd
Wythnos cyn 06 Rhagfyr	Sesiwn werthuso

**Sut i ymgeisio**

1. Llythyr esboniadol heb fod yn fwy na 1000 o eiriau sy'n trafod / yn disgrifio:-
  - a. eich arfer creadigol/artistig a sut mae'n ymwneud â ffocws cysniadol y prosiect hwn (250 o eiriau).
  - b. eich profiadau o weithio gyda chymunedau trwy broses gydwethredol (cyd-ddatblygu a chyd-greu) (250 o eiriau)
  - c. yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys y broses greadigol ac unrhyw ddeilliannau arfaethedig a sut mae hyn yn ymwneud â'r briff (250 o eiriau)
  - d. eich dyheadau digidol ar gyfer y prosiect hwn (250 o eiriau).
2. A fydddech gystal ag amgáu CV diweddar a dolenni digidol i unrhyw waith blaenorol perthnasol – gallai hyn gynnwys eich gwefan, YouTube neu brosiectau eraill sydd ar gael ar-lein.
3. Manylion dau ganolwr.
4. Anfonwch eich cais at Lucy A'Bear [lucy.abear@powys.gov.uk](mailto:lucy.abear@powys.gov.uk) erbyn canol dydd ar ddydd Llun 23 Awst 2021.

**Ynglŷn â'n Partneriaid**

Cyngor Sir Powys: [Cyngor Sir Powys County Council](#)

Impelo: [Impelo](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru: [Natural Resources Wales](#)

Articulture: <https://articulture-wales.co.uk>

4Pi Productions: <https://4piproductions.com>

Cynhyrchir y prosiectau CELFDDIWYLLIANT Ynysoedd y Dyfodol gan Ruth Lloyd, yr ymgynghorydd celfyddydol, treftadaeth a diwylliant.

**ARTSCAPE** 

Prosiect a gyfwynir mewn partneriaeth dan arweiniad

Cyngor Sir Powys yw heARTscape

